

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 25 Ebrill 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cynnwys

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynlluniau Trosglwyddo Stoc Dai yng Nghymru

C7 David Lloyd: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chyd-weithwyr yng Nghabinet San Steffan ar hynt y cynlluniau i drosglwyddo'r stoc dai yng Nghymru? (OAQ16939)

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Ni chafwyd unrhyw drafodaethau. Er bod fy swyddogion yn cynnal cysylltiadau clòs gyda'u cymheiriaid yn y Trysorlys a'r Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, y mae tai yn swyddogaeth ddatganoledig.

Tai Fforddadwy

C8 Alun Pugh: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog darpariaeth dai fforddiadwy? (OAQ16976)

Edwina Hart: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhyddhau £56.4 miliwn mewn grant tai cymdeithasol i gynorthwyo darpariaeth dai fforddiadwy yn 2002-03.

Bydd yr adnoddau hyn, ynghyd â chyllid preifat gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn creu buddsoddiad o dros £90 miliwn ac yn darparu oddeutu 1,100 o gartrefi ar rent a pherchenogaeth tai am bris isel y flwyddyn hon.

Tai Fforddadwy i Bobl Leol mewn Ardaloedd Gwledig

C9 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae wedi'i wneud i sicrhau tai fforddiadwy i bobl leol mewn ardaloedd gwledig? (OAQ16982)

Edwina Hart: Y flwyddyn ddiwethaf, yr oedd gan awdurdodau lleol gwledig £18 miliwn o grant tai cymdeithasol i fanteisio arno er mwyn bodloni eu blaenoriaethau buddsoddi.

Hefyd, bu i mi gynyddu uchafswm benthyciadau ecwiti, dan y cynllun *homebuy*, i 50 y cant, a rhyddheais £1.5 miliwn yn ychwanegol fel arian cyfatebol er mwyn annog awdurdodau lleol i fanteisio ar y trefniadau newydd. O ganlyniad i hyn, llwyddodd 140 o deuluoedd mewn ardaloedd gwledig i gael cartrefi am bris y gallent ei fforddio.

Cynnydd yn y Dreth Gyngor yn Abertawe

C10 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd yn y dreth gyngor yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe? (OAQ16935)

Edwina Hart: Na wnaif. Mater i awdurdodau unigol yw hwn.

Cydlynu Prosiectau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

C11 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y mae prosiectau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn cael eu cydlynu ledled Cymru? (OAQ16978)

Edwina Hart: Mae'r bwrdd polisi cynhwysiant cymdeithasol ac adfywio cymunedol, yr wyf yn gadeirydd arno, yn goruchwyllo sut y gweithredir Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar lefel Cymru-gyfan.

Mae gan awdurdodau lleol rôl i'w chwarae i hwyluso cydweithio a chydlynu rhwng partneriaethau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn eu hardaloedd. Hefyd, bydd swyddogion y Cynulliad, ochr yn ochr â'r rhwydwaith cefnogi a sefydlwyd i gynnig cyngor a chefnogaeth broffesiynol i bartneriaethau Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, yn dwyn y partneriaethau ynghyd er mwyn iddynt ddysgu oddi wrth brofiadau ei gilydd.

Trefniadau Ariannu Mentrau

C12 Janet Ryder: A yw'r Gweinidog wedi derbyn unrhyw sylwadau oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch trefniadau ariannu'r mentrau y mae'r Cynulliad yn eu harwain? (OAQ16977)

Edwina Hart: Mae'r Cynulliad wedi ariannu'r holl feichiau newydd i awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfan gwbl ar gyfer 2002-03. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw sylwadau a gafwyd yn ddiweddar oddi wrth CLILC.

Rôl Cyngorau Cymuned

C13 Owen John Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl cyngorau cymuned? (OAQ16929)

Edwina Hart: Mae cyngorau tref a chymuned yn chwarae rôl werthfawr mewn sawl ardal yng Nghymru. Rhoddant gyfle i'r bobl leol ddylanwadu ar sut y mae eu hardaloedd yn datblygu, a chynigiant wasanaethau sy'n cyfrannu at ansawdd eu bywyd. Yn ddiweddar, comisiynais ymchwil i swyddogaethau a rolau cyngorau tref a chymuned ynghyd â'u potensial i'r dyfodol. Bydd y grŵp ymchwil i newidiadau a datblygiadau rhanbarthol, o Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, yn cynnal yr ymchwil. Dechreuodd ar 1 Ebrill 2002 a bydd yn para am flwyddyn.

Allgáu Cymdeithasol

C14 Jocelyn Davies: A yw'r Gweinidog yn monitro'r effaith y mae Rhoi Cymunedau'n Gyntaf wedi ei chael ar raglenni sy'n bod eisoes i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol? (OAQ16980)

Edwina Hart: Sefydlwyd y bwrdd polisi cynhwysiant cymdeithasol ac adfywio cymunedol, yr wyf yn gadeirydd arno, er mwyn cynghori ar gyfeiriad strategol polisiâu cynhwysiant cymdeithasol, gan gynnwys datblygiad Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Un o'i dasgau yw ystyried i ba raddau y mae'r rhaglenni cefnogi sy'n bodoli eisoes yng Nghymru yn cyd-fynd â Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, a sut y gellir anelu'r rhaglenni cefnogi yn well tuag at y cymunedau mwyaf difreintiedig.

Yn ogystal, mae strategaeth arfarnu a monitro ar gyfer Rhoi Cymunedau'n Gyntaf wrthi'n cael ei llunio. Bydd hon yn monitro'r effaith a gafodd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar raglenni ariannu sy'n bodoli eisoes.

Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ16986) yn ôl.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

Diogelu Adeiladau Crefyddol

C7 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pwysigrwydd diogelu adeiladau crefyddol ac addoldai fel cofadeiladau hanesyddol yng Nghymru? (OAQ16962)

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Mae addoldai yn rhan bwysig o dreftadaeth Cymru. Mae'r Cynulliad yn gwarchod adeiladau crefyddol sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig drwy eu cynnwys ar y rhestrau statudol, ac mae'n darparu grantiau ar gyfer cadw'r adeiladau pensaernïol a hanesyddol mwyaf arwyddocaol.

Cynllun Tocynnau Mantais Bws

C8 Brian Hancock: A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am y cynllun tocynnau mantais bws ar gyfer menywod dros 60 oed a dynion dros 65 oed? (OAQ16965)

Sue Essex: Mae'r cynllun newydd i'w weld yn boblogaidd iawn. Mae'n hybu mynediad ac yn rhoi trafndiaeth gyhoeddus mwy fforddiadwy i gynifer â 600,000 o'r bobl fwyaf haeddiannol o bosibl yng Nghymru—pensiynwyr a phobl anabl—boed hynny er mwyn mynd i siopa, i'r gwaith, gofal iechyd, ymweld â chyfeillion neu berthnasau, neu'n syml er mwyn mwynhau diwrnod i'r brenin yng Nghymru.

Gwastraff Plastig a Pholythen

C9 David Davies: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad ynghylch ffyrdd mwy amgylcheddol-gyfeillgar o waredu bagiau plastig du a gwastraff polythen o ffermydd? (OAQ16987)

Sue Essex: Caf drafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad am faterion amgylcheddol. Byddwn yn ceisio sicrhau bod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cynnwys cynigion ar gyfer pob gwastraff amaethyddol, gan gynnwys deunydd lapio silwair, yn ei hymgynghoriad ar wastraff amaethyddol yn ddiweddarach eleni.

Lefelau Ailgylchu

C10 Nick Bourne: Pa gynnydd a wneir o ran cynyddu a hyrwyddo ailgylchu yng Nghymru? (OAQ16991)

Sue Essex: Ym mis Mehefin, cyhoeddwn ein strategaeth gwastraff, a fydd yn cynnwys polisiau a gynyddu cyfanswm y gwastraff trefol yr ydym yn ei ailgylchu a'i gompostio i o leiaf 40 y cant erbyn 2009-10. Rhoddir £68.5 miliwn i awdurdodau lleol rhwng 2001-02 a 2004-05 at y diben hwn, drwy gyfuniad o gymeradwyaethau credyd a grantiau penodol.

Ffermydd Gwynt

C11 Janice Gregory: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch defnyddio ffermydd gwynt a'u lleoliad yng Nghymru? (OAQ16994) *Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd.*

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies): Yn ystod y ddadl fer ar ffermydd gwynt ar 28 Chwefror, pwysleisiais fod ffermydd gwynt ar y tir yn fater holl bwysig. Yr wyf am inni frwr ymlaen yn sensitif gyda datblygiadau mawr ar y tir yn y lleoliadau lleiaf problemus, gorau oll pe bai hynny gyda chefnogaeth gref gan y gymuned.

Mae gan ddatblygiad ynni gwynt hefyd botensial sylweddol drwy gyfraniad gwynt o'r lan. Mae'r adnoddau naturiol sydd gennym wrth law yn golygu bod yna gyfleoedd. Yr ydym yn gweithio'n agos gyda'r Adran Masnach a Diwydiant er mwyn sicrhau'r manteision gorau i Gymru.

Mae adroddiad yr Uned Perfformio ac Arloesi, dan yr teitl 'Ynni 2050', yn cyfleu neges gref am yr angen i ddatblygu technolegau carbon isel. Byddaf yn cyflwyno datganiad gerbron y Cyfarfod Llawn ar 30 Ebrill, a bydd y datganiad hwn yn darparu golwg strategol o ddyfodol ynni yng Nghymru a bydd yn gosod y cyfeiriad ar gyfer polisiau i'r dyfodol yng nghyd-destun adroddiad yr uned.

Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd wrthi'n adolygu ynni yng Nghymru. Disgwylir i'w adroddiad ar ynni adnewyddadwy, a ryddheir heddiw i ymgynghori arno, wneud cyfraniad gwerthfawr. Yn wir, bydd yr adroddiad hwn yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau a sefydlir gan Lywodraeth y Cynulliad i'r dyfodol i gyrraedd y nod yn 'Cymru'n Ennill', sef sefydlu Cymru yn esiampl i'r byd o ran datblygu ynni glân.

Ategir y nod hwn drwy gyhoeddi 'Polisi Cynllunio Cymru', cyhoeddiad sydd wedi'i seilio'n gadarn ar nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru o sicrhau datblygu cynaliadwy, adeiladu economi ddeinamig a blaengar, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a hybu cyfle cyfartal. Rhoddir rhagor o ganllawiau cynllunio yn y nodyn diwygiedig 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy, a baratoir eleni.

Atgyweirio Ffyrdd

Q12 Alun Pugh: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y gwaith atgyweirio ar ffordd yr A55? (OAQ16972)

Sue Essex: Mae'r gwaith atgyweirio ar ffordd yr A55 eleni yn cael ei wneud fel rhan o ddyletswydd y Cynulliad fel awdurdod priffyrdd dros gefnffyrdd i wneud gwaith uwchraddio a chynnal a chadw hanfodol yn barhaus. Cynlluniwyd pob cynllun fel y pair cyn lleied o oedi â phosib i draffig dros wyliau banc, penwythnosau yn ystod y gwanwyn a'r hydref ac yn ystod gwyliau haf ysgolion.

Gollwng Gwastraff yn Anghyfreithlon ym Môr Hafren

C13 Brian Gibbons: Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fonitro'r gwastraff sy'n cael ei ollwng yn anghyfreithlon gan longau ym môr Hafren? (OAQ16968)

Sue Essex: Mae gwybodaeth am achosion o ollwng gwastraff yn anghyfreithlon i'w chael gan yr asiantaethau gwarchod pysgodfeydd, sydd â'r gallu i gadw golwg o'r tir, o'r môr ac o'r awyr. Eleni, cymerwyd camau i rwystro chwech o weithgareddau gollwng anghyfreithlon posibl.

Wrth ganfod digwyddiadau o'r fath, defnyddir pwerau dan Ddeddf Bwyd a Gwarchod yr Amgylchedd 1985 i erlyn troseddwy.

Amddiffynfeydd Arfordirol

C14 Alison Halford: Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau y bydd amddiffynfeydd arfordirol, yn enwedig yn y Gogledd, yn gwrthsefyll unrhyw godiad yn lefel y môr o ganlyniad i gynhesu byd-eang? (OAQ16961)

Sue Essex: Yr wyf wedi annog yr awdurdodau sy'n gyfrifol i baratoi cynlluniau rheoli traethlinau, cynlluniau sydd, drwy ystyried yr amrywiaeth mawr o faterion sy'n effeithio ar yr arfordir, gan gynnwys effaith codiad yn lefel y môr, yn ymdrechu i ddarparu sail ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol cynaliadwy.

Gwasanaeth Casglu Sbwriel i'w Ailgylchu

C15 Owen John Thomas: Faint o gartrefi yng Nghymru sy'n derbyn gwasanaeth casglu sbwriel i'w ailgylchu, wedi'i ddarparu gan yr awdurdod lleol? (OAQ16953)

Sue Essex: Ar gyfer 1999-2000, mae data ar gael gan 11 o awdurdodau lleol.

Yr oedd gwasanaeth casglu sbwriel i'w ailgylchu ar gael i ychydig dros 360,000 o gartrefi yng Nghymru. Amrywiai'r gwasanaethau o gasgliadau wythnosol, pythefnosol a misol. Cynhwysai'r gwasanaethau casglu oddeutu 50 y cant o'r cartrefi yn yr 11 awdurdod lleol dan sylw.